Rhif: WG28140

ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Allbynnau ystadegol ar amcangyfrifon ac amcanestyniadau o'r poblogaeth ac aelwydydd

Dyddiad cyhoeddi: 29 Chwefror 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Mai 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2016

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am adborth ar rai o'n hallbynnau ystadegol yn ymwneud ag ystadegau poblogaeth ac aelwydydd.

Yn gyffredinol, rydym yn gofyn am adborth yn agored am brofiad defnyddwyr wrth ddefnyddio'r allbynnau ystadegol hyn a sut y gallwn wella yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn cynnig amserlen ar gyfer y cylch nesaf o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd ac yn gofyn am farn ar yr amserlen hon ac amserlenni'r dyfodol.

**Sut i ymateb**

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân (ar ffurf Excel), sydd ar gael ar wefan yr ymgynghoriad, yma: www.llyw.cymru/consultations/statistics/statistical-outputs-population-household-estimates-projections/?status=open&lang=cy

Gallwch e-bostio'r ffurflen ymateb i ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk neu ei phostio i'r cyfeiriad isod.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae gwybodaeth am allbynnau ystadegol sy'n cael eu paratoi gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud ag amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd ar gael yn: http://llyw.cymru/statistics-and-research/?topic=Population+and+migration

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Alan Jackson
Ystadegau Poblogaeth a Demograffeg,
Llywodraeth Cymru
4ydd Llawr, Adain y De, CP2
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk
Llinell Ymholiadau Cyffredinol Ffôn: 029 2082 3332

**Diogelu data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Rhagair

Mae ystadegau poblogaeth ymysg y pwysicaf o blith yr ystadegau swyddogol, gan eu bod yn sail i ddyrannu adnoddau a chynllunio at y dyfodol yn lleol ac yn genedlaethol ac yn ein helpu ni i ddeall ein cymdeithas sy'n newid.

Yng Nghymru, yn yr un modd, mae ein hamcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth ac aelwydydd yn rhan annatod o'r broses gynllunio. Maen nhw'n rhoi darlun o'r tueddiadau tebygol yng nghyfansoddiad y boblogaeth ac aelwydydd mewn ardaloedd yng Nghymru dros yr 20-30 mlynedd nesaf.

Yn yr hydref, fe wnaethom ni gyhoeddi'r amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer poblogaeth y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru ac, ym mis Mawrth, byddwn yn cyhoeddi amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer ardaloedd y Parciau Cenedlaethol. Dyma ddiwedd y cylch olaf o amcanestyniadau a ddechreuodd gyda chyhoeddi amcanestyniadau awdurdodau lleol sail-2011 yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011.

Wrth i ni ddechrau'r cylch nesaf o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn hwyrach eleni, mae'n adeg briodol i ofyn am adborth gan ddefnyddwyr ystadegau poblogaeth ar ein hallbynnau, methodoleg ac amserlen.

***Glyn Jones***
***Prif Ystadegydd***

**Ar beth rydym ni eisiau adborth?**

Rydym yn gofyn am adborth ar ein hallbynnau ystadegol sy'n ymwneud ag ystadegau poblogaeth ac aelwydydd, sy'n cael eu disgrifio isod. Yn gyffredinol, rydym yn gofyn am adborth yn agored am brofiad defnyddwyr wrth ddefnyddio'r allbynnau ystadegol hyn a sut y gallwn wella yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn cynnig amserlen ar gyfer y cylch nesaf o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd ac yn gofyn am farn ar yr amserlen hon ac amserlenni'r dyfodol.

**Cefndir**

Ledled y Deyrnas Unedig caiff ystod eang o **ystadegau poblogaeth ac aelwydydd** eu paratoi sy'n helpu i gynllunio at y dyfodol yn achos, er enghraifft, yr angen am dai, darparu gwasanaethau cyhoeddus a buddsoddi mewn manwerthu. Fe'u defnyddir hefyd i ddyrannu adnoddau fel y setliad llywodraeth leol.

Yng Nghymru, mae'r cyfrifoldeb am gynhyrchu ystadegau **poblogaeth** wedi'i rannu rhwng y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a Llywodraeth Cymru. Mae'r ONS yn gyfrifol am gynnal y Cyfrifiad Poblogaeth yng Nghymru a Lloegr, paratoi amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth yn flynyddol a pharatoi amcanestyniadau cenedlaethol o'r boblogaeth (ar gyfer y DU gyfan).

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gyhoeddir gan yr ONS i baratoi bwletin ystadegol ar amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth. Rydym hefyd yn defnyddio data'r ONS fel sail i gyfrifo amcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth ar gyfer Cymru. Rydym yn paratoi'r rhain ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol.

Rydym hefyd yn paratoi ystadegau ar lefel **aelwydydd** yng Nghymru i roi data i ddefnyddwyr am newidiadau yng nghyfansoddiad aelwydydd i lywio, er enghraifft, penderfyniadau ynghylch adeiladu tai. Rydym yn paratoi:

- Amcangyfrifon aelwydydd canol blwyddyn blynyddol ar gyfer Cymru
- Amcanestyniadau aelwydydd fesul awdurdod lleol ar gyfer Cymru
- Amcanestyniadau aelwydydd fesul Parc Cenedlaethol ar gyfer Cymru

Caiff yr ystadegau hyn i gyd eu cyhoeddi o dan gyfrifoldeb Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Cenedlaethol (dogfen Saesneg).

Rydym yn cyhoeddi'r ystadegau hyn drwy ddatganiadau neu fwletinau ystadegol sy'n darparu cyfuniad o sylwadau, siartiau, tablau a gwybodaeth am ansawdd. Rydym hefyd yn paratoi tablau StatsCymru sy'n galluogi defnyddwyr i ryngweithio a thrin y data i baratoi'r tablau sydd eu hangen arnynt. Rydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol a ffeithluniau i helpu i hyrwyddo'r defnydd o ystadegau.

Caiff yr ystadegau hyn eu defnyddio gan bob math o bobl a sefydliadau am lu o wahanol resymau. Yn eu plith mae awdurdodau lleol, byrddau gwasanaeth

lleol, byrddau iechyd lleol, awdurdodau tân ac achub, sefydliadau gwirfoddol, comisiynwyr, y cyfryngau, y byd academaidd, a'r sector preifat.

Dyma ambell enghraifft o sut y caiff yr ystadegau hyn eu defnyddio:

- Yn fformiwla'r setliad llywodraeth leol
- Yng nghynlluniau datblygu lleol i lywio asesiadau o'r angen am dai ac anghenion eraill
- Penderfyniadau ar gynllunio llefydd mewn ysgolion, neu leoli gwasanaethau iechyd
- Cynorthwyo gyda chynllunio'r farchnad lafur leol drwy eu defnyddio mewn gwybodaeth am y farchnad lafur
- Gan sefydliadau gwirfoddol i wneud ceisiadau am grantiau
- Gan sefydliadau manwerthu i benderfynu ble i agor siopau yn y dyfodol
- Wrth ystyried effaith datblygiadau seilwaith graddfa fawr
- Wrth ddeall nifer achosion ac amcanestyniadau'r dyfodol ar gyfer cyflyrau iechyd

Hefyd, mae'r polisïau newydd sy'n cael eu cyflwyno mewn perthynas â chynllunio a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn golygu y bydd yr ystadegau hyn yn fwy defnyddiol nag erioed:

- Mae galw am amcanestyniadau lleol i gefnogi'r asesiadau o lesiant lleol y mae'n rhaid eu cynnal o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob corff cyhoeddus ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol ym mhopeth a wnânt. Mae'r adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a fydd yn cael ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru a'r adroddiad bob 5 mlynedd gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn debygol o ystyried pwysau newid demograffig.

- Mae Deddf Cynllunio (Cymru) wedi gwneud darpariaethau ar gyfer cynlluniau strategol i fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ardal leol ac mae amcanestyniadau diwygiedig o'r boblogaeth yn cael eu gweld fel sail hollbwysig ar gyfer y cynlluniau hynny a gallent hefyd fod yn sylfaen ar gyfer credu ardaloedd strategol ehangach.

- Mae gofyniad hefyd i baratoi amcanestyniadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr awdurdodau lleol presennol er mwyn eu defnyddio i gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw.

**Cwestiynau ymgynghori**

Rydym yn gofyn i chi ateb ein cwestiynau ymgynghori drwy lenwi'r ffurflen ymateb berthnasol (taenlen Excel).

Yn gyffredinol rydym yn gofyn am adborth agored ar yr allbynnau ystadegol a ddisgrifir uchod, gan edrych ar y canlynol:

- Sut caiff yr ystadegau eu cyflwyno – ydy'r dull yn addas i'ch anghenion a sut y gallwn ei wella?

- Dulliau a ddefnyddir i baratoi'r ystadegau – ydych chi'n cytuno â'r dulliau cyfredol?
- Dod o hyd i ddata ar wefannau – ydych chi'n gwybod beth sydd ar gael, ac yn ble?

Ond rydym yn gofyn hefyd am adborth penodol ar y meysydd canlynol:

Amserlen

Rydym yn cynnig dechrau gwaith ar amcanestyniadau newydd ar gyfer y 22 awdurdod lleol a thri awdurdod parc cenedlaethol yn hanner cyntaf 2016. Y nod fydd dechrau cyhoeddi canlyniadau yn yr hydref, gan barhau i gyhoeddi allbynnau tan ddechrau 2017. Ein nod yw cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol ym mis Medi 2016.

- Ydych chi'n cytuno â'r amserlen hon?
- Pa amcanestyniadau fyddwch chi eu hangen yn y dyfodol?
- Pa mor aml ddylid eu paratoi?

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU wedi cynnig y dylem weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a gweinyddiaethau eraill y DU i gael yr un flwyddyn sylfaen ar gyfer amcanestyniadau is-genedlaethol a chenedlaethol lle mae modd – dyma ein cynnig ar gyfer y gwaith oni bai ei bod hi'n amlwg bod defnyddwyr angen blwyddyn sylfaen wahanol yng Nghymru, fel y dewisom wneud yn dilyn Cyfrifiad 2011 er mwyn blaenoriaethu'r angen am amcanestyniadau wedi'u diweddaru yng Nghymru yn hytrach nag aros am amcanestyniadau cenedlaethol sail-2012.

- Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?

*Wrth ateb yr adran hon dylech nodi bod yr ONS wedi ymgynghori yn ddiweddar ar baratoi amcanestyniadau cenedlaethol o'r boblogaeth yn llai aml – bob tair blynedd yn hytrach na phob dwy flynedd. Bydd hyn yn effeithio ar y data sydd ar gael i baratoi amcanestyniadau is-genedlaethol yn amlach.*

Cyhoeddi bwletin amcangyfrifon canol blwyddyn

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cyhoeddi amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru bob blwyddyn. Yn y gorffennol, rydym wedi darparu bwletin yn cyflwyno'r data a sylwadau cryno. Yn unol â'n hymgynghoriad blaenorol, lle'r oeddem yn ceisio blaenoriaethu allbynnau sy'n ychwanegu gwerth drwy gael gwared ar unrhyw ddyblygu gwaith gyda chyrff eraill sy'n paratoi ystadegau, yn y dyfodol, yn y dyfodol, pan fydd ONS yn cyhoeddi data newydd byddwn yn diweddaru tablau StatsCymru yn unig a byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol bod ONS wedi cyhoeddi'r data diweddaraf. Ni fyddai hyn yn arwain at oedi cyn cyhoeddi data Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Ydy'r cynnig hwn yn achosi unrhyw anhawster i chi?